


Clwb Cinio ddydd Gwener

O Fedi'r 14eg, bydd y Clwb Cinio ar ddydd Gwener yn y Pafiliwn yn cymryd hoe fach am bedair wythnos. Mae hyn tra bod ein hannwyl. Eunice yn gwella o lawdriniaeth ar ei hysgwydd

(gofynnwn i bawb groesi eu bysedd fod y llawdriniaeth yn digwydd ar y dyddiad arfaethedig a'i fod yn llwyddiannus).

Bydd y giamocs arferol ar ddydd Gwener yn parhau unwaith eto o Hydref y 19fed ymlaen. Pob lwc Eunice.



LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Eurwyn Roberts o Blanhigfa Felin ar ei bumed Fedal Aur ar hugain yn olynol am ei arddangosfeydd eleni yn Sioe Môn.



'Clwb 100' Ysgol Dollwyddean

Pennaeth Mrs. Nia Jones-Artell

Bu'r '**Clwb 100**' yn llwyddianus unwaith eto, diolch yn fawr am eich cefnogaeth. Mae'r ysgol a'r plant yn elwa'n uniongyrchol o'r arian.

Mae pob aelod un talu **£12** am y flwyddyn, a byddwn yn tynnu'r rhifau ar ddiwedd pob mis yn yr ysgol gyda gwobrau ariannol.

Os hoffech ymaelodi, cwblhewch y slip isod a'i ddychwelyd i **Miss. Teleri Jones, 'Pant y Ffridd', Maes y Braich** os gwelwch yn dda.



Enw: _____

Cyfeiriad: _____

£12 Arian

£12 Siec, yn daladwy - Clwb Cant Ysgol Dolwyddelan

£12 PARENT PAY (system ar-lein ar gael i rieni disgyblion Ysgol Dol.

Sylw gan aelod hapus – Roeddwn i wedi anghofio popeth am ymuno nes imi dderbyn fy enillion. Annisgwyl a gwych ynghyd â ffordd ardderchog o gefnogi'r ysgol leol.